# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Adroddiad DRAFFT ar berfformiad 2019-20 – Chwarter Pedwar** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **20-07-B09** |
| **Noddir y Papur Gan:** | **Clare Pillman, Prif Weithredwr** |
| **Cyflwynir y Papur Gan:** | **Y Tîm Gweithredol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu/Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad CNC ar gyfer chwarter olaf 2019-20, gan roi ystyriaeth benodol i'r canlynol:<br>• Cynnydd o ran pob mesur ar y Dangosfwrdd Perfformiad a'r camau y mae CNC yn eu cymryd |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Y modd y mae'r papur hwn yn helpu CNC i gyflawni dulliau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Atal materion rhag codi:** Mae rheoli perfformiad effeithiol yn offeryn allweddol ar gyfer deall gwaith CNC. Mae'n ein galluogi i gymryd camau ataliol os na fydd y perfformiad a'r ddarpariaeth yn unol â'r hyn y dylent fod. |

## Mater

1. Mae rownd olaf eleni o adrodd ar berfformiad corfforaethol, ar gyfer 1 Ionawr hyd at 31 Mawrth 2019, bellach wedi ei chwblhau, ac mae'n nodi ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Paratowyd yr adroddiad ar berfformiad atodedig i'r Bwrdd graffu arno. Mae angen ystyried effaith y llifogydd yn gynnar yn 2020 a Covid-19 ddiwedd y Flwyddyn Ariannol, fel ei gilydd.

## Cefndir

2. Yr adroddiad ar berfformiad corfforaethol yw un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein darpariaeth.

3. Lluniwyd yr adroddiad ar berfformiad (Atodiad 1) yn rhan o'r broses i baratoi Cynllun Busnes 2019-20 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a Phwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:

- **Dangosfwrdd**, sy'n darparu trosolwg o'r perfformiad o gymharu â mesurau 2019-20 a bennir yn ein Hamcan Llesiant
- **Tabl** sy'n adlewyrchu'r cyswllt rhwng ein mesurau, deg blaenoriaeth ein Cynllun Busnes, a'n Hamcanion Llesiant

- Manylion ar gyfer pob mesur ar y dangosfwrdd o ran:
  - pam y mae'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phob mesur yn bwysig;
  - pa un a ydym yn cyflawni targedau ai peidio;
  - yr hyn yr ydym yn ei wneud i gyflawni targedau os byddwn yn dilyn y trywydd anghywir.

4. Dyma'r adroddiad olaf, yn unol â'n Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20: hon yw'r ail flwyddyn o adrodd mewn perthynas â'n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022.

## Asesu

5. Crynhoir ein perfformiad ar gyfer chwarter olaf 2019-20 isod:

| | Chwarter 1 (1 Ebrill-30 Mehefin 2019) | Hyd at Chwarter 2 (1 Ebrill 2019-30 Medi 2019) | Hyd at Chwarter 3 (1 Hydref 2019-31 Rhagfyr 2019) | Hyd at Chwarter 4 (1 Ionawr-31 Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| 'Gwyrdd' | 16 | 12 | 12 | **10** |
| 'Oren/Gwyrdd' | 0 | 0 | 0 | **0** |
| 'Oren' | 6 | 9 | 11 | **13** |
| 'Coch/Oren' | 1 | 1 | 0 | **0** |
| 'Coch' | 3 | 4 | 3 | **3** |
| Wedi'i oedi | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **26** | **26** | **26** | **26** |

6. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer chwarter olaf 2019-20. Yn ystod Chwarter 4, gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Mae dyrannu cyllid grant wedi symud o Oren i Wyrdd
- Mae gwella'r ffordd y caiff tir ei reoli yng Nghymru yn y dyfodol wedi symud o Oren i Wyrdd
- Mae monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion wedi symud o Goch i Oren

Fodd bynnag, mae sawl maes wedi dirywio yn ystod y chwarter:

- Mae creu Gweledigaeth a Rennir o ran yr Amgylchedd Naturiol ar gyfer 2050 wedi symud o Wyrdd i Oren
- Mae gwneud cynnydd o ran SoNaRR2 wedi symud o Wyrdd i Oren
- Mae creu coetiroedd newydd ac ailblannu safleoedd lle mae coed wedi cael eu cwympo wedi symud o Oren i Goch
- Mae cyflenwi ein rhaglen ynni adnewyddadwy wedi symud o Wyrdd i Oren
- Mae boddhad y cwsmer wedi symud o Wyrdd i Oren

Caiff y newidiadau hyn, ynghyd â'r 'llwybrau i wyrdd', eu hegluro'n ddiweddarach yn y papur hwn. Rydym wedi cymhwyso'r meini prawf sgorio Coch/Oren/Gwyrdd yn drylwyr er mwyn sicrhau tryloywder: mae nifer o'r symudiadau hyn yn ganlyniad i oedi yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael ei unioni yn y dyfodol, neu oherwydd bod ein

dull wedi newid yn sgil newidiadau i amgylchiadau ganol y flwyddyn. Bydd rhai mesurau'n cymryd sawl blwyddyn i newid yn wyrdd – caiff hyn ei egluro ar gyfer y mesurau penodol yr effeithiwyd arnynt.

Mae chwarter olaf y flwyddyn hon hefyd wedi bod yn ddigynsail – gyda llifogydd difrifol yn digwydd, yn ogystal â chamau cynnar y pandemig Covid-19. Mae hyn, yn anochel, wedi effeithio ar berfformiad yn y chwarter hwn.

7. Mae'r wybodaeth am ymgorffori'r broses Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chymhwyso ei hegwyddorion, ynghyd â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn, er mwyn cyfeirio atynt. Mae hyn wedi llywio ein hadroddiad blynyddol, y mae angen iddo gynnwys adroddiad ar y cynnydd o ran Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (gan gynnwys dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8. Yn dilyn gweithredu ein Cynllun Sefydliadol, rydym yn parhau i feithrin arbenigedd yn ein timau newydd, ac rydym yn gweithio'n galed i lenwi'r swyddi gwag sy'n weddill. Mae hyn wedi cael effaith ar nifer o’n mesurau, a ledled y sefydliad, wrth i’r timau newydd a’u gwaith gael eu sefydlu: fodd bynnag, bydd yna fanteision clir pan fydd y strwythurau newydd hyn wedi’u poblogi’n llwyr a’r staff wedi cael eu huwchsgilio.

9. Ar gyfer 2020-21, rydym wedi adolygu ein hymagwedd at fesurau ar y lefel hon o'r dangosfwrdd gan ein bod wedi datblygu ein Cynllun Busnes newydd. Mae'r rhain wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd bellach, a byddwn yn cyflwyno llai o fesurau lefel uwch, gyda llawer o'r manylion i'w gweld mewn adroddiadau ar lefel ein Byrddau Busnes. Mae'r Byrddau Busnes yn cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu – er enghraifft rheoli perygl llifogydd, rheoli adnoddau naturiol, tystiolaeth a rheoleiddio.

10. Isod, rydym wedi amlinellu'r holl fesurau er mwyn rhoi trosolwg cytbwys o berfformiad CNC: nodir hyn gan yr Amcan Llesiant. Eleni, rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol iawn. O ganlyniad i effaith ein gwaith i ailstrwythuro'r sefydliad, ansicrwydd ynghylch gadael yr UE, a newidiadau i'r amgylchiadau ganol y flwyddyn, ynghyd ag effaith llifogydd ac, i ryw raddau, Covid-19 ar ddiwedd y Flwyddyn Ariannol, nid ydym wedi bodloni ein holl dargedau.

**Hyrwyddo Amgylchedd Cymru a’r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru**

11. **Oren – Gweithio gydag eraill i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer 2050 o ran amgylchedd naturiol Cymru**

Mae'r gwaith hwn wedi symud o wyrdd i oren yn y chwarter olaf, a hynny am nad ydym wedi gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, fel yr oeddem wedi'i obeithio, erbyn diwedd y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae gennym gynllun rhaglen manwl sy'n ymwneud â phedwar llinyn o waith. Yn achos y gwaith tystiolaeth, rydym wedi bod yn treialu dulliau o feddwl am y dyfodol, a hynny gydag oedolion a phobl ifanc, fel ei gilydd: yn achos cyfathrebu, rydym yn cynllunio sut y byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau ymgysylltu electronig megis Citizen Space. Mae llif gwaith y rhanddeiliaid yn ystyried

ffyrdd o ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn enwedig gan nad yw ymgysylltu wyneb yn wyneb yn bosibl ar hyn o bryd. Mae llif gwaith y cynnwys yn mynd i'r afael â strwythur dogfen gweledigaeth a rennir.

Rydym wedi penodi aelod newydd i'n Tîm Arweinyddiaeth yn ddiweddar er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Bydd y weledigaeth a rennir yn cael ei chyflwyno yn ystod hydref 2021.

12. **Gwyrdd – Gweithio gydag eraill i ddatblygu ein Datganiadau Ardal**

Cyhoeddwyd fersiwn gyntaf ein Datganiadau Ardal ar 31 Mawrth 2020, ar wefan CNC. Yn dilyn cyngor y Bwrdd, rydym wedi mabwysiadu lansiad meddal – gan ddefnyddio postiadau Twitter i gyfeirio traffig trwy'r wefan. Mae gennym broses ar waith i fentora, cofnodi a gweithredu ar unrhyw adborth.

Rydym 'nawr yn adolygu'r gwaith hwn ac yn casglu a rhannu gwersi a ddysgwyd oddi wrth y rhaglen, gan gynnwys gwersi'n ymwneud ag ymgysylltu. Byddwn yn gweithio gyda chyd-weithwyr yn Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn parhau i ddefnyddio Datganiadau Ardal gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) wrth iddynt ddatblygu'r rownd nesaf o Asesiadau Llesiant. Byddwn hefyd yn defnyddio Datganiadau Ardal i helpu i lywio cyfleoedd ar gyfer cyllid grantiau.

13. **Oren** – **Cefnogi'r datganiad o argyfwng hinsawdd, lleihau ein hôl troed carbon a galluogi sector cyhoeddus Cymru i ddatgarboneiddio**

Rydym wedi cwblhau'r rhan fwyaf o elfennau'r mesur hwn erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r mesur hwn yn oren o ganlyniad i oedi o ran peth o'n gwaith, gan gynnwys cyflwyno rhai o'n mentrau ynni adnewyddadwy a chyfle i weithio gyda rhanddeiliaid.

Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni gwefru Cerbydau Trydan (EV) wedi cael ei oedi, gyda thua 60% o'r gwaith ar systemau Ffotofoltaidd solar ac effeithlonrwydd ynni a gynlluniwyd ar gyfer Ch4 wedi'u hoedi oherwydd Covid-19.

Rydym wedi cynnal gweithdai i ysgogi a chynorthwyo'r broses ddatgarboneiddio mewn awdurdodau lleol (ALlau) a BGCau yng Ngogledd Cymru (chwe ALl/pedwar BGC) a thrwy Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd (pum ALl/BGC): fodd bynnag, mae gweithdai a gynlluniwyd ledled Dyfed (tri ALl/BGC) wedi gorfod cael eu gohirio am y tro oherwydd Covid-19.

Mae meysydd gwaith eraill yn parhau i wneud cynnydd, gan gynnwys trafodaethau pellach â Tsar newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hyn yn nodi cwmpas llawn y camau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio y gallai CNC eu cyflawni yn y dyfodol, a fydd yn lleihau ein hallyriadau ein hunain ac yn hwyluso'r broses o leihau allyriadau gan eraill.

Er bod digwyddiad CoP26 Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC – a ddylai fod wedi cael ei gynnal yn Glasgow eleni) wedi cael ei ohirio, rydym yn arwain cydweithrediad ledled y Deyrnas Unedig ymhlith arweinwyr newid yn yr hinsawdd, a hynny i drafod cydweithrediad rhyngasiantaethol ar atebion

seiliedig ar natur a rôl ecosystemau o ran cyflawni allyriadau net o sero yn y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn darparu mewnbwn ar gyfer y CoP pan gaiff ei ailamserlennu.

Rydym wedi gweithio'n helaeth gyda Llywodraeth Cymru (LlC) i sefydlu'r achos dros raglen weithredu genedlaethol ar gyfer mawndiroedd, ac rydym 'nawr wedi cael y dasg o ddatblygu'r rhaglen hon i'w chyflawni dros bum mlynedd. Mae'r Prosiect LIFE Newydd ar gyfer Cyforgorsydd Cymru bellach wedi'i gomisiynu'n llwyr ac ar waith.

Yn ystod 2020-21, byddwn yn parhau i symud y rhaglen Carbon Positif yn ei blaen, a fydd yn cynnwys gweithio gyda'n tîm Caffael a chontractwr i ddatblygu dull ar gyfer datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi a'n proses gaffael mewn modd effeithiol, a hynny trwy ddefnyddio contractau allweddol yn astudiaethau achos.

14. **Oren – Symud ymlaen â'r ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol**

Roeddem wedi cyhoeddi'r SoNaRR2 interim ym mis Rhagfyr, a hynny ar ffurf adroddiad ar y We. Hyd yma, mae wedi cael croeso mawr.

Yn ystod Ch4, roeddem wedi parhau i asesu'r graddau y mae'r broses Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cael ei chyflawni ar gyfer pob un o'r wyth Ecosystem Eang a'r wyth Thema, a oedd yn cynnwys adolygu a chytuno ar y negeseuon allweddol: roedd y gwaith hwn i gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid. Aethom ati i gynnal gweithdy mewnol trwy Skype ar 31 Mawrth i drafod y negeseuon allweddol newydd.

Mae'r gwaith a gynlluniwyd gennym i ysgrifennu'r penodau, adolygu'r canfyddiadau a rhannu'r canfyddiadau hyn â'r rhanddeiliaid, wedi cael ei oedi am o leiaf fis. Mae Covid-19 wedi effeithio ar staff CNC ac ar y ffordd yr ydym yn rhannu'r gwaith â'r rhanddeiliaid.

Rydym yn gweithio'n galed i roi hyn 'nôl ar y trywydd iawn er mwyn i'r SoNaRR2 llawn gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Rhagfyr 2020, yn ôl y cynllun. Mae ein tîm TGCh yn ein helpu i nodi ffyrdd priodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein, gan gysylltu hyn â'n Porth Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sy'n cael ei ddatblygu. Byddwn hefyd yn cytuno â Llywodraeth Cymru ar strwythur yr adroddiad er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu ei hanghenion.

15. **Gwyrdd – Dyrannu grant cyllid i gefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**

Bu yna gynnydd sylweddol oddi ar y chwarter diwethaf o ran datblygu a gweithredu ein prosesau grant newydd. Mae ein strategaeth grantiau wedi cael ei lansio ar ein gwefan, ac mae llythyrau wedi cael eu hanfon at yr holl bartneriaid hynny a gafodd grant gan CNC yn y rownd gomisiynu ddiwethaf, yn ogystal ag at rwydweithiau megis Fforwm Rheoli Tir Cymru, y Fforwm Pysgodfeydd a Cyswllt Amgylchedd Cymru.

O ganlyniad i Covid-19, rydym wedi rhoi cyfarwyddyd targededig i'r staff ac i'n partneriaid ynghylch argaeledd cyllid ychwanegol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym hefyd yn cwrdd â chyrff anllywodraethol amgylcheddol i archwilio cyfleoedd cyllido.

Mae ein dull cyllido Cystadleuol wedi cael ei ddatblygu, ac mae gennym amserlen gytunedig ar gyfer cyflwyno rhaglen gyllido gystadleuol yn 2020-21.

Nid yw'r adolygiad o rownd gyllido 2018-19 wedi cael ei gwblhau'n llwyr eto, a hynny oherwydd i ni estyn y cyllid grant ar gyfer prosiectau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020 er mwyn cefnogi ein partneriaid. Byddwn 'nawr yn llunio adroddiad cryno ar y canlyniadau a'r buddion a wireddwyd yn sgil y prosiectau a ariannwyd gennym yn y rownd gomisiynu ddiwethaf, a hynny yn chwarter cyntaf 2020-21. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cipio gwybodaeth am y prosiectau hynny a gafodd eu hestyn o fis Rhagfyr 2019 i 31 Mawrth 2020.

Yn 2020-21, byddwn yn cwblhau adolygiad 2018-19, ac yn cadarnhau'r broses diwydrwydd dyladwy ar gyfer ein grantiau cystadleuol, gan hyfforddi'r staff perthnasol. Mae'r broses ymgeisio am grantiau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a rennir bellach ar gael i'w defnyddio, ac mae'n broses barhaus. Hyd yma, mae pedwar cais wedi cael eu cyflwyno ac yn cael eu prosesu.

**Sicrhau bod y defnydd o dir a dŵr yng Nghymru yn cael ei reoli’n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig**

16. **Gwyrdd – Gwella’r ffordd y caiff tir ei reoli yng Nghymru yn y dyfodol**

Rydym yn parhau i gynghori a darparu cymorth technegol i Lywodraeth Cymru o ran Datblygu Cynlluniau i Reoli Tir yn y Dyfodol, gan weithredu fel cynghorydd allweddol i Bolisi LlC.

Roedd Rheoliadau Dŵr newydd i fod i gael eu lansio'n wreiddiol ar 1 Ionawr. Er bod hyn wedi cael ei oedi, rydym yn parhau i gefnogi LlC a'r sector amaethyddol cyn y caiff Cyhoeddiad Gweinidogol ei wneud. Rydym hefyd yn parhau i werthuso'r effeithiau a chynllunio'r modd y byddwn yn cyflwyno cynllun newydd yng ngoleuni'r rheoliadau.

Mae gwaith is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol yn mynd rhagddo er ei fod wedi arafu, a hynny'n bennaf oherwydd oedi'r cyhoeddiad ynghylch y rheoliadau dŵr newydd. Rydym yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod y grŵp yn parhau i ganolbwyntio ar y nodau a'r canlyniadau, ac i symud yr agenda hon yn ei blaen.

17. **Coch – Creu coetiroedd newydd ac ailblannu safleoedd lle mae coed wedi cael eu cwympo**

Mae'r mesur hwn yn cynnwys nifer o elfennau. Er y gwelwyd cynnydd mewn sawl maes, mae'r mesur cyffredinol yn goch oherwydd y gwaith ailstocio cyfyngedig ar safleoedd lle y bu'r haint *Phytophthora ramorum* yn flaenorol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd cyfanswm yr ardal a gafodd ei hailstocio yn 2019-20 yn 1,260 ha, sef 70% o'r targed o 1,800 ha. Y rhesymau dros y diffyg oedd oedi wrth i ni sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau (Iechyd, Diogelwch a Lles) yn y Gweithle 1992

o ran darparu llesiant, argaeledd contractwyr, ac effaith Covid-19 ar argaeledd planhigion. Rydym wedi parhau i blannu ym misoedd Mawrth ac Ebrill er mwyn cwblhau cymaint o'r plannu â phosibl ar gyfer y tymor hwn. Bydd hyn yn ychwanegu rhwng 100 ha a 200 ha i'r ardal sydd wedi cael ei hailstocio.

Byddwn yn adolygu sefyllfa ein banc tir ym mis Mehefin, pan fydd yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'w hasesu ar ôl y tymor plannu. Rydym yn parhau â rhaglen ar gyfer 1,800 ha yn 2020-21, a hynny er bod yna bryderon ynghylch effaith Covid-19 ar argaeledd planhigion gan feithrinfeydd coed yn y dyfodol. Byddwn yn monitro'r gwaith hwn yn ofalus.

Mae'r prosiect i gaffael tir ar gyfer creu coetir i ffurfio rhan o Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ar y gweill, ac mae hyn yn cynnwys cyflawni'r cynllun ar gyfer coetir newydd o ganlyniad i'n rhaglen cyflenwi ynni.

Mae ein rhaglen ehangach ar gyfer creu coetir yn datblygu mewn modd effeithiol; rydym yn gwneud cynnydd o ran creu coetir trwy raglen ac iddi nifer o linynnau gwahanol, er enghraifft Plant! a phlannu coetir Canmlwyddiant. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau manwl â Llywodraeth Cymru ynghylch ehangu rownd nesaf Creu Coetir Glastir a datblygu Coedwig Genedlaethol ar gyfer Cymru.

18. **Coch – Gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd**

Mae’r mesur hwn yn parhau’n goch: er ein bod yn gwneud cynnydd, rydym yn parhau i gael trafferthion staffio. Roeddem wedi cyflwyno ‘dadansoddiad dwfn’ o'r mesur hwn i'r Bwrdd ym mis Ionawr, ac mae yna ‘lwybr clir tuag at wyrdd’ i ofalu ein bod ar y trywydd iawn erbyn diwedd 2020-21, ar yr amod ein bod yn sicrhau'r staff gofynnol i gyflawni hyn.

Roeddem wedi cytuno ar ffordd ymlaen trwy ganolbwyntio ar ddalgylchoedd cyfle, gan sicrhau gwelliant trwy ein proses lywodraethu a defnyddio'r adnoddau ychwanegol a gafwyd yn 2020-21 i lywio'r gwaith yn ei flaen.

Rydym wedi cael trafferth llenwi'r swyddi a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru (saith aelod o staff ychwanegol ledled Timau Amgylchedd gweithredol CNC hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020) gan mai penodiadau tymor penodol, byrdymor oedd y rhain. Ni fuom yn llwyddiannus yn gwneud cais i estyn y penodiadau tymor penodol a fyddai wedi blaenoriaethu'r mesurau lleol, ac mae hyn yn parhau i fod yn fwlch sylweddol. Rydym yn gweithio o fewn y busnes i fynd i'r afael â'r modd y gellir bodloni'r mesurau 'nawr yn 2020-21.

Byddwn yn sicrhau bod blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth Fframwaith Dŵr yn cael eu hadlewyrchu yn ein Cynlluniau Gwasanaeth i gysoni adnoddau a sicrhau ymrwymiad hirdymor i'r Gyfarwyddiaeth.

Rydym yn parhau i weithio trwy Fforwm Dŵr Cymru, y Fforwm Rheoli Tir a rhaglen waith yr is-grwpiau er mwyn sicrhau'r newidiadau tymor hwy sy'n ofynnol i gefnogi gwell statws.

19. **Oren – Sicrhau bod cronfeydd dŵr yn parhau i gael eu rheoli mewn modd diogel a chyfrifol**

Gwnaed cynnydd sefydlog, ac mae ein risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â diogelwch cronfeydd wedi'u lleihau. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi rhoi 34 o fesurau diogelwch ar waith mewn 10 o gronfeydd, ac wedi datgomisiynu dwy gronfa, gyda Pheiriannydd Archwilio annibynnol yn ardystio'r gwaith i gyd.

Roeddem yn disgwyl diffyg cydymffurfedd mewn dwy gronfa o ganlyniad i orfod ailamserlennu er mwyn osgoi'r risg o adael gwaith bregus yn agored i'r tywydd dros y gaeaf. Ailddechreuwyd ar y gwaith hwn yn ystod Ch4, ond cafodd ei oedi oherwydd Covid-19, gan darfu ar ein contractwyr a'r gadwyn gyflenwi. Gweithiodd ein rhagofalon diogelwch ychwanegol yn dda yn ystod stormydd y gaeaf, ac maent yn parhau i fod ar waith. Mae'r peiriannydd archwilio wedi asesu'r risg, ac wedi ein cynghori i beidio â symud ymlaen â'r gwaith heb sicrwydd y bydd yn cael ei gwblhau, a hynny er mwyn osgoi gwendidau yng nghanol y gwaith.

Rhagwelwyd y byddai dwy gronfa arall yn cydymffurfio unwaith eto yn Ch4, a hynny'n seiliedig ar roi prosiect telemetreg sylweddol ar waith. Roedd hyn hefyd yn ganlyniad i heriau arbennig o ran adnoddau yn ymwneud â llifogydd mis Chwefror gan fod mewnbwn yn ofynnol gan staff CNC mewn sawl sector. Fodd bynnag, gwnaed trefniadau dros dro (Ebrill 2020), ac rydym yn disgwyl cydymffurfedd yn Ch4 2020-21 ar yr amod bod y peirianwyr goruchwylio yn cael eu bodloni. Cytunwyd ar hyn gyda'r Peiriannydd Goruchwylio.

Cyflawnir ein 'llwybr tuag at wyrdd' o ran ein hamserlen archwilio gyfredol trwy'r gwaith ar y pedair cronfa a drafodir uchod. Felly, ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn cydymffurfio 90% yn hytrach na'r 95% a gynlluniwyd. Rydym yn bwriadu cydymffurfio'n llawr yn achos pob cronfa statudol erbyn diwedd mis Medi 2020, fel yr amlinellir yn Risg Strategol SR02 (gydag un gronfa yn cael ei dirwyn i ben, ac arni angen rhagor o waith er mwyn sicrhau y gall hyn ddigwydd). Bydd gwaith yn mynd yn ei flaen y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon er mwyn cynnal cydymffurfedd.

**Gwella cadernid ac ansawdd ein hecosystemau**

20. **Oren – Gweithredu 'Natur hanfodol' – adfer, creu a gwella cynefinoedd a hyrwyddo bioamrywiaeth**

Er i ni gyflawni nifer o elfennau'r mesur hwn, a dychwelyd i statws gwyrdd ar gyfer ein cydran bioddiogelwch, mae'r elfen hon wedi cael sgôr oren yn bennaf oherwydd bod rhaglen flynyddol y safleoedd gwarchodedig yn is na'r targed. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo o ran y mesurau sy'n ymwneud â gwytnwch ecosystemau a bioamrywiaeth, ond rydym wedi nodi'r mesurau hyn yn oren oherwydd oedi sy'n effeithio ar ein gallu i gwblhau ein cerrig milltir ar gyfer Ch4.

Adroddir bod 61% o'n cynllun gweithredu ar gyfer 2019-20 i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â rheoli cadwraeth sy'n effeithio ar gyflwr cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg safleoedd penodedig, ar y gweill neu wedi'i gwblhau. Er ei fod yn oren ar y dangosfwrdd, mae yna brosiectau cyflawni sylweddol wedi'u cynnwys/cwblhau yn rhan o'r 61% hwnnw. I helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae rhagor o adnoddau Asiantiaid

Tir wedi'u sicrhau i gefnogi'r gwaith hwn. Maent wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn dod yn gwbl weithredol, ochr yn ochr â delio â'r ôl-groniad cysylltiedig yn y llwyth gwaith.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen Bioddiogelwch CNC wedi cael ei sefydlu. Mae archwiliad Bioamrywiaeth arfaethedig CNC yn mynd rhagddo; dechreuwyd ar archwiliad peilot o'r holl staff ym mis Mawrth. Er bod cynnydd pellach wedi'i oedi oherwydd amhariad Covid-19, mae'r fethodoleg yn barod i ni ailgydio ynddi pan fydd yr amodau yn caniatáu ar ôl Covid-19.

Rydym yn parhau i weithio i symleiddio ein dull o ymdrin â threfniadau rheoli, ynghyd â'r camau cysylltiedig i wella safleoedd, gan roi ystyriaeth i flaenoriaethau, amcanion llwythi gwaith ac adnoddau er mwyn gwella cyflawniad yn 2020-21.

21. **Oren – Monitro a mynd i'r afael ag iechyd coed a phlanhigion**

Rydym wedi cyflawni gwelliant sylweddol oddi ar y chwarter diwethaf, ac mae'r tueddiadau'n gadarnhaol: mae'r mesur wedi symud o goch i oren, ac roedd yn parhau i wella ddiwedd y flwyddyn.

Yn ystod Ch4, roeddem wedi cyhoeddi 21 o Hysbysiadau Statudol o Iechyd Planhigion (SPHN), gyda 90% o fewn y targed o 60 diwrnod. Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed oherwydd anawsterau o ran sefydlu perchnogaeth ar rai ystadau preifat.

Bellach, rydym wedi archwilio 102 o safleoedd yr oedd yn rhaid iddynt gydymffurfio erbyn 31 Mawrth 2019, ynghyd â 58 o safleoedd yr oedd yn rhaid iddynt gydymffurfio erbyn 31 Awst 2019. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n goetiroedd Cyhoeddus a Phreifat, gyda 114 o'r safleoedd ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru (70%), a 46 yn safleoedd Preifat.

Roedd canran y safleoedd a oedd yn cydymffurfio ar Ystad Coetir LlC wedi codi i 95% yn ystod Ch4. Cafodd 17 o safleoedd eraill eu hystyried yn safleoedd 'â mân ddiffyg cydymffurfedd', a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau i'r ymateb strategol i'r clefyd. Yn ystod haf 2020, bydd angen ailasesu 23 o safleoedd a oedd wedi cael eu trin â chemegion.

Ni fydd angen cymryd camau gorfodi yn achos yr un o'r safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio; mae rhagor o amser wedi cael ei roi iddynt gyflawni'r gwaith. Defnyddir yr un dull yn achos Ystad Coetir LlC a choetiroedd preifat, fel ei gilydd, gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt yn rhan o Bolisi Gorfodi ac Erlyn CNC.

Yn rhan o'n 'llwybr tuag at wyrdd', rydym wedi adolygu'r modd yr ydym yn cyhoeddi Hysbysiadau Statudol o Iechyd Planhigion. Rydym wedi cynyddu amser y staff a ddynodir ar eu cyfer. O ganlyniad, mae rhai swyddogaethau eraill wedi cael eu hatal, eu lleihau neu eu trosglwyddo i gontractwyr allanol, lle bo hynny'n bosibl. Rydym hefyd wedi gorfod bod yn fwy llym o ran cyhoeddi hysbysiadau. Dylai hyn roi mwy o hyder i ni o ran taro'r targedau yn 2020-21.

22. **Gwyrdd – Rheoli a gweithredu ein rhaglenni ar gyfer pysgodfeydd cynaliadwy**

Yn ystod y chwarter diwethaf, mae ein holl Gynlluniau Adfer Cynefinoedd Pysgodfeydd wedi dod i law, gan gwblhau'r rhaglen flynyddol a rhagori ar ein targed gwreiddiol (daeth cynlluniau ar gyfer 16 o afonydd i law yn 2019-20). Mae ein rhaglenni ar gyfer llwybrau pysgod a chynlluniau cynefinoedd hefyd wedi'u cwblhau.

Cwblhawyd y gwaith ar gyllid grant Lliniaru Amgen (ein cyllid dynodedig strategol) i Afonydd Cymru, ac o'r fan honno ymlaen at ymddiriedolaethau afonydd priodol, i gyflawni rhaglenni blynyddol ar y Gwy, y Ddyfrdwy, y Seiont a'r Fawddach. Er bod yr oedi o ran darparu cyllid, yn ogystal â'r tywydd anffafriol, yn golygu bod peth o'r gwaith y dylid bod wedi'i gwblhau yn 2019-20 yn dal i ddisgwyl sylw, cytunwyd i gyflawni'r gwaith sy'n weddill yn 2020-21, ynghyd â thargedau presennol 2020-21. Cafodd peth o'r gwaith Lliniaru Amgen ei wneud yn fewnol yng Ngogledd Cymru, a bodlonwyd y targedau.

Roeddem wedi cwblhau prif gamau ‘Pysgota yng Nghymru’ – prosiect partneriaeth (gyda Croeso Cymru a'r Ymddiriedolaeth Bysgota) i hyrwyddo pysgota yng Nghymru. Cafodd y lansiad ffurfiol ei ohirio oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar bysgota. Rydym hefyd wedi cwblhau'r ‘Cynllun Gwaith ar gyfer eogiaid a brithyllod môr’, y gofynnodd y Gweinidog amdano wedi iddi gymeradwyo is-ddeddfau pysgota â gwialenni a rhwydi Cymru gyfan. Cafodd hwn ei gymeradwyo gan LlC ar ddiwedd Ch4, a bydd 'nawr yn cael ei ddosbarthu'n eang i'r rhanddeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ein cais am gadarnhad o'r is-ddeddfau trawsffiniol (y Gwy a'r Ddyfrdwy) yng Nghymru. Er bod cynnydd wedi'i oedi yn Lloegr, deellir bod y cais 'nawr yn nwylo Gweinidog DEFRA. Rydym yn rhag-weld oedi yn y cam olaf oherwydd Covid-19.

Ar gyfer 2020-21, rydym wedi cynhyrchu pecyn o brosiectau cyfalaf, sy'n cynnwys cyflawni a pharatoi llwybrau pysgod technegol yn fewnol, ac, yn bennaf trwy ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Afonydd Cymru, gwaith adfer cynefinoedd ymarferol gan yr ymddiriedolaethau afonydd. Byddwn hefyd yn cynnal yr adolygiad rhaglenedig o strwythur a dyletswyddau system y trwyddedau rhwydi, ynghyd ag adolygiad bras o'r arfer o ecsbloetio llyswennod Ewropeaidd yn nyfroedd Cymru, ac yn cyfrannu at waith LlC o ddatblygu cynllun tystiolaeth pysgodfeydd.

**Lleihau’r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd**

23. **Oren – Darparu ymateb effeithiol ac effeithlon o ran rheoli digwyddiadau**

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y mesur hwn, gan wella rhagor ar y broses o asesu ac ymateb i ddigwyddiadau categori uchel. Mae'r gwaith o ddod â digwyddiadau i ben yn parhau'n is na'r targed, o bosibl oherwydd y stormydd ym mis Chwefror; am y tro, rydym yn parhau ar y lefel oren.

Rydym wedi cynnal ein perfformiad uchel ar gyfer Asesu Digwyddiadau (gan ragori ar y targed) o ran y mesur ar gyfer asesu digwyddiadau cyn pen awr, a hynny am i ni gyflwyno proses frysbennu (fel yr adroddwyd amdani yn Ch1). Rydym yn parhau i wella ein perfformiad o ran ymateb i ddigwyddiadau 'categori uchel' cyn pen pedair awr; amlygir hyn gan y cynnydd o 4% yn y perfformiad oddi ar y chwarter diwethaf.

Fodd bynnag, bu yna ostyngiad yn y perfformiad yn achos y mesur ar gyfer dod â digwyddiadau i ben (cyn pen 30 diwrnod), yn rhannol oherwydd ffigurau mis Chwefror (56%), a oedd yn is na ffigurau mis Rhagfyr (65%) a mis Ionawr (62%) – a hynny, o bosibl, o ganlyniad i adroddiadau'n ymwneud â stormydd mis Chwefror a'r modd y deliwyd â nhw yn ein systemau adrodd.

Yn 2020-21, bydd angen i ni ffocysu mwy ar y trydydd dangosydd (Dod â Digwyddiadau i Ben), lle mae'r perfformiad wedi parhau'r oren trwy gydol y flwyddyn, gyda'r perfformiad yn amrywio o ychydig dros 60% i uchafswm o 65%. Rydym yn cymryd camau i ddeall y perfformiad o ran y mesur hwn yn well, ac i ddeall pam, efallai, na fu'n bosibl dod â digwyddiadau i ben cyn pen 30 diwrnod. Bydd hyn yn helpu i nodi pa newidiadau i'r broses y mae angen i'r Tîm Rheoli Digwyddiadau eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

24. **Oren – Cynnal asedau rheoli perygl llifogydd CNC sydd mewn lleoliadau risg uchel mewn cyflwr gweithredu targed**

Mae ein targed wedi'i osod ar lefel fwriadol uchel, sef 99%. Mae hyn yn golygu y gall fod gennym 35 o asedau ar y tro nad ydynt yn bodloni eu cyflwr targed, a hynny o blith y 3,490 sydd mewn systemau lle mae yna risg uchel o lifogydd. Mae'r perfformiad cyfredol yn 97.6% (oren), sef lefel debyg i berfformiad y chwarter blaenorol.

Ddechrau 2020-21, roedd angen i ni gynnal 41 o atgyweiriadau er mwyn bodloni'r targed. Yn sgil rhagor o fethiannau o ganlyniad i archwiliadau, ynghyd â nifer is cymaradwy o atgyweiriadau yn ystod y cyfnod, mae angen i ni 'nawr gynnal 50 o atgyweiriadau i fodloni'r targed. Mae yna raglen o archwilio asedau'n barhaus, a chaiff methiannau eu nodi trwy'r archwiliadau rheolaidd hyn. Felly, mae'r sefyllfa'n un ddynamig, a bydd nifer yr asedau sydd islaw'r cyflwr targed yn amrywio yn ystod y flwyddyn, gyda'r atgyweiriadau sy'n cael eu cyflawni yn gwrthbwyso'r methiannau sy'n cael eu nodi.

Bu yna gynnydd yn nifer yr asedau sydd Islaw'r Cyflwr Gofynnol yn ystod Ch4, a hynny'n dilyn Stormydd Ciara, Dennis a Jorge, a effeithiodd ar ardaloedd mawr o Gymru. Mae prosiect Adfer ac Adolygu Llifogydd y Gaeaf ar waith, ac mae'n cynnwys llifoedd gwaith ar gyfer asesu'r difrod ac atgyweirio'r asedau yr effeithiwyd arnynt. Mae'r archwiliadau o'r asedau yn parhau, ac mae'n bosibl y gallem weld rhagor o asedau diffygiol yn dod i'r amlwg yn Ch1 2020-21. Gallai hyn effeithio ar y perfformiad o ran y targed hwn yn 2020-21.

Cafodd canfyddiadau'r Adolygiad Dadansoddol Dwfn eu hadrodd i'r Bwrdd yn ystod Ch4. Cytunodd y Bwrdd i'r sail resymegol ar gyfer lleihau'r targed i 98% yn 2020-21, gydag adolygiad pellach i'w gynnal ddiwedd y flwyddyn. Y rheswm dros hyn yw bod targed o 99% yn gallu ysgogi ymddygiadau anghywir, megis ailgyfeirio adnoddau i

atgyweirio asedau yn rhy gyflym, ac nid yw'n ystyried anwadalrwydd nifer yr archwiliadau o asedau.

25. **Oren – Mynd i'r afael ag effaith diwydiant a safleoedd gwastraff**

Mae'r mesur hwn yn parhau'n oren: y rheswm pennaf dros hyn yw'r angen i recriwtio a hyfforddi staff newydd. Rydym yn mynd ati i recriwtio yn fewnol ac yn allanol ac, er i nifer o swyddi gael eu llenwi, mae angen hyfforddiant cyn y gall y swyddogion newydd ymgymryd â'u rolau.

Mae pob achos o beidio â chydymffurfio ar gyfer 2019 bellach wedi cael ei gofnodi ar ein system, ac mae'r adroddiad bandio terfynol ar gyfer y flwyddyn (Ionawr-Rhagfyr) wedi cael ei lunio. Mae yna ddeg safle sy'n perfformio'n wael yn gyson, sef pedwar safle gweithredu gwastraff a chwe safle gosod (sy'n cynnwys safleoedd tirlenwi): mae gan bob un ohonynt naill ai gynllun gwella a/neu gamau gorfodi ar waith. O blith y safleoedd hyn, mae dau ohonynt yn y band perfformio isaf ar hyn o bryd (F) – sef safle tirlenwi sydd â phroblemau hirdymor sylweddol, a gwaith dur; rydym yn mynd i'r afael â'r materion trwy orfodi camau gweithredu a gwelliannau gofynnol. Yn seiliedig ar y broses bandio cydymffurfedd olaf ar gyfer 2019, mae yna gyfanswm o 48 o safleoedd gweithredol yr ystyrir eu bod yn berfformwyr gwael. O blith y rhain, mae 30 ohonynt yn weithrediadau gwastraff a 18 ohonynt yn safleoedd gosod, gan gynnwys safleoedd tirlenwi.

Mae gan bob achos categori 1 a 2 o beidio â chydymffurfio sy'n deillio o ddechrau'r flwyddyn ymatebion rheoleiddiol priodol ar waith, ar wahân i un gweithrediad gwastraff, y mae ganddo dri achos categori 2 o beidio â chydymffurfio yn parhau: nid yw'r camau dilynol wedi cael eu cwblhau eto. Mae hwn yn safle gwahanol i'r un a nodir mewn adroddiadau cynharach; mae ymatebion wedi'u pennu ar gyfer y ddau fater sy'n disgwyl sylw ar safle yn y chwarter blaenorol, ac mae'r materion hynny'n cael eu datrys.

Ar hyn o bryd, mae yna 23 o safleoedd a chanddynt faterion hirdymor, ac mae gan bob un gynlluniau gwella ar waith i fynd i'r afael â'r prif broblemau, y mae angen amser a buddsoddiad sylweddol i'w datrys.

Mae nifer y safleoedd lle mae yna risg uchel o dân, ac y mae ganddynt Gynlluniau Atal Tân a Lliniaru (FPMP), yn 34/36 ar hyn o bryd (94%). O blith y ddau safle a oedd heb gynllun, roedd un yn gweithredu'n anghyfreithlon ac mae wedi cael ei adael, felly nid yw'n bosibl cytuno ar gynllun ar hyn o bryd, ac ni fydd y safle'n cydymffurfio hyd nes iddo gael ei glirio. Mae'r ail safle yn aros adolygiad i benderfynu a yw'n parhau i fodloni'r meini prawf ar gyfer risg uchel, a hynny am ei fod yn storio gwastraff anadweithiol yn bennaf. Mae FPMP wedi cael ei gyflwyno bellach, ond nid yw bodloni gofynion ein canllawiau eto.

Rydym wrthi'n recriwtio i'n timau rheoleiddiol, gan hyfforddi newydd-ddyfodiaid, ac rydym yn gweithio i ddatblygu pecynnau hyfforddi. Mae timau'n canolbwyntio ar safleoedd sydd â'r risg uchaf i'r amgylchedd ac sy'n ymwneud â'n mesurau perfformiad craidd a'r blaenoriaethau rheoleiddiol allweddol.

26. **Coch – Cyflawni ein rhaglen cyfalaf rheoli perygl llifogydd**

Fel yr adroddwyd yn gynharach yn 2019-20, roeddem yn gwybod yn gynnar yn y flwyddyn na fyddem yn bodloni ein prif darged yn y flwyddyn (sef 136 o eiddo â lefel is o risg) ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a hynny oherwydd bod y tri phrosiect adeiladu a ddylai fod wedi dod i ben yn 2019-20 wedi cael eu hoedi – Gollyngfa Tregatwg (Y Barri), Crynant (ardal Castell-nedd) a Pharc yr Onnen (Aberystwyth). Mae'r prosiectau hyn 'nawr yn debygol o gael eu cwblhau yn 2020-21.

Yn 2020-21, ein bwriad yw sicrhau gwarchodaeth ar gyfer tua 800 o eiddo wrth i gynlluniau cyfredol a newydd gael eu cwblhau; fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ba un a fydd Covid-19 yn amharu ar ein gwaith adeiladu.

Er nad yw'r prif darged wedi cael ei fodloni am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd oherwydd yr amrywiadau yn y gwaith adeiladu cyfalaf, mae'r rhaglen gyfalaf gyffredinol yn parhau i gyflawni gwaith pwysig. Mae yna dros 200 o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, sy'n cynnwys prosiectau cynnal a chadw cyfalaf sy'n cynnal y lefel warchod gyfredol: bydd y gwaith hwn o fudd i 800 o eiddo eleni. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys astudiaethau mapio a modelu, cynlluniau i weithredu prosesau naturiol i reoli llifogydd, a phrosiectau sy'n gwella cadernid ein rhwydwaith ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd – nid dim ond prosiectau adeiladu.

Rydym yn cydnabod bod nifer yr eiddo sydd â lefelau gwarchodaeth uwch yn un dangosydd perfformiad. Rydym wedi trafod hyn â'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd, ac wedi cytuno i ystyried ystod ehangach o ddangosyddion trwy ein Bwrdd Busnes Rheoli Perygl Llifogydd, megis cynnal niferoedd yr eiddo trwy ein gwaith cynnal a chadw, ac olrhain cerrig milltir er mwyn gwerthuso perfformiad y rhaglen.

**Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy cyflawn**

27. **Gwyrdd – Mynd i'r afael ag effaith llygredd aer**

Mae'r mesur hwn yn parhau'n wyrdd. Roedd trafodaethau ynghylch ein rôl o ran ansawdd yr aer yn y cyfarfod Bwrdd ym mis Mawrth yn canolbwyntio ar rannu arfer gorau ac edrych am gyfleoedd i ychwanegu gwerth y tu hwnt i'n rôl gyfredol. Penderfynwyd y bydd monitro Ansawdd yr Aer yn ystod digwyddiadau yn parhau i fod yn rhan o'n cylch gwaith.

Rydym wedi ymateb i gynllun Llywodraeth Cymru, Cynllun Aer Glân i Gymru, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori arno ym mis Rhagfyr, a byddwn yn ceisio helpu LlC i gyflawni'r cynllun, ynghyd ag unrhyw ofynion a osodir arnom.

Rydym wedi cwblhau prosiect a oedd yn asesu allyriadau amonia o ffermydd moch, dofednod a llaeth yng Nghymru, a bydd hwn 'nawr yn cael ei ddefnyddio yn sail i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol ynghylch rheoli'r sectorau hyn. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi, a bydd adborth ar y dadansoddiad yn cael ei roi i Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Yn 2020-21, bydd y gallu i ehangu ein rôl gyfredol yn dibynnu ar gyllid.

28. **Gwyrdd – Cyflawni Rhaglen Llwybr Arfordir a Llwybrau Cenedlaethol Cymru**

Mae hon yn rhaglen sefydledig, sydd wedi'i diffinio'n dda. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran yr holl fesurau.

Gwnaed yr holl geisiadau am grantiau a'r holl daliadau ar amser. Mae'r tri arolwg cyflwr arfaethedig i lywio Cynlluniau Rheoli Rhanbarthol 2019-20 wedi'u cwblhau. Mae arolygon i lywio Cynlluniau Rheoli 2020-21 ar waith, ond wedi'u hatal dros dro oherwydd Covid-19. Mae'r tri Chynllun Rheoli Rhanbarthol arfaethedig wedi'u cwblhau mewn fformat drafft terfynol.

Rydym yn bodloni ein hymrwymiadau targed, a nodir yn Strategaeth Hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru 2018-2021 ac yng Nghronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) Croeso Cymru. Cwblhawyd yr adroddiad terfynol, ar gyfer y strategaeth newydd, Strategaeth Hyrwyddo a Chynllun Gweithredu Llwybrau Cenedlaethol Cymru, ym mis Mawrth 2020.

Gan fod y partner hyrwyddo, Walk Unlimited, wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb Consesiwn gyda Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru, mae NE ac CNC, fel ei gilydd, yn gweithio i sicrhau parhad gwefan y Llwybrau Cenedlaethol wrth i ni weithio tuag at wefan hirdymor a datblygiadau hyrwyddo eraill.

Byddwn 'nawr yn ystyried cynigion cyllid datblygu Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer 2020-21, ac yn cynnig ein grantiau ar gyfer 2020-21.

29. **Gwyrdd – Datblygu ein cytundeb cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru.**

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn y maes gwaith hwn, a hynny er gwaethaf yr achosion o Covid-19.

Mae Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru yn parhau i wneud cynnydd. Mae iddi bedwar maes blaenoriaeth: Cyfathrebu; Arsyllfa Gweithgarwch Corfforol; Lleoliadau Addysgol; a Chronfa Iach ac Egnïol.

Mae'r grŵp Lleoliadau Addysgol bellach wedi gosod blaenoriaethau ac amserlenni clir. Mae cynnig ar y cyd i gefnogi datblygiad proffesiynol y proffesiwn addysgu, sy'n gysylltiedig â'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Llesiant yn Cwricwlwm i Gymru, wedi cael ei lunio. Cafodd y cynnig ei dderbyn yn enghraifft glir o gefnogaeth i wireddu Cwricwlwm i Gymru, a chaiff ei ddatblygu ymhellach yn 2020-21.

Mae'r Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach, ynghyd â'r Cynllun Cyflawni dwy flynedd, yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau presennol ac i ddatblygu cyfle yn y dyfodol ledled CNC ac ar y cyd â Phartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru. Mae cynllun gweithgareddau CNC wedi'i integreiddio â'r Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach.

Mae digwyddiad i randdeiliaid, a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2020, wedi cael ei ohirio hyd nes y clywir yn wahanol oherwydd Covid-19. Roedd gwaith i ddechrau adolygu'r

Cynllun Ysgolion Iach (sydd dan arweiniad LlC/ICC) i fod i ddechrau yn Ch4, ond mae wedi cael ei ohirio oherwydd Covid-19 (bydd y posibilrwydd o ddechrau ar y gwaith yn cael ei adolygu ym mis Mai/Mehefin).

30. **Oren – Paratoi proses lywio a rhaglen Seilwaith Gwyrdd**

Fel y nodir yn ein hadroddiad ar gyfer Ch3, mae ein Strategaeth ar gyfer Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei hoedi gan ein bod wedi ailflaenoriaethu ein hadnoddau i sicrhau bod tystiolaeth o'r Seilwaith Gwyrdd yn cael ei hystyried mewn modd priodol yn SoNaRR2, ac i sicrhau'r cyfle strategol gorau i ddylanwadu ar y modd y caiff y Seilwaith Gwyrdd ei ystyried yn y system cynllunio defnydd tir.

Rydym wedi paratoi'r bennod ddrafft ar ecosystemau trefol ar gyfer SoNaRR2, yn unol â'r terfyn amser, a bydd y bennod hon yn destun adolygiad.

Mae ein Canllaw Tystiolaeth drafft i gefnogi awdurdodau cynllunio lleol bron yn barod i'w rannu â Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn llunio Canllaw Arfer da ategol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnal Asesiadau Seilwaith Gwyrdd. Rydym wedi dechrau ei brofi gydag awdurdodau cynllunio dethol, a byddwn yn parhau i wneud hynny ar ddechrau 2020-21. Yna, byddwn yn cyflwyno'r ddau ganllaw i Lywodraeth Cymru ar gyfer adborth.

Rydym hefyd wedi cyfrannu gwybodaeth i'r Datganiadau Ardal. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n achlysurol yn ystod 2020-21 wrth i ni ddatblygu rhagor o offer a chyngor i helpu awdurdodau cynllunio i wneud y defnydd gorau o'r Datganiadau, ynghyd â thystiolaeth arall sydd gennym.

Rydym wedi rhannu mapiau cyfleoedd a chysylltedd i lywio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bwriadwyd i hwn gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2020, ond mae hyn wedi cael ei ohirio yn sgil yr ymateb i Covid-19. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau ynghylch amserlen ddiwygiedig.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2020-21 yw cwblhau ein Canllaw Tystiolaeth a'n Canllaw Arfer Da, yn ogystal â helpu i sicrhau bod Datganiadau Ardal yn llywio cynlluniau datblygu lleol ar gyfer y dyfodol mewn modd effeithiol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda LlC i archwilio'r berthynas rhwng Datganiadau Ardal, Seilwaith Gwyrdd a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

**Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol trwy ddefnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi**

31. **Gwyrdd – Dod â phren sydd wedi'i reoli'n gynaliadwy i'r farchnad**

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, rydym wedi gallu dod ag 889,000 $m^3$ o bren i'r farchnad a sicrhau ei fod yn cael ei werthu. Er bod y swm yn fwy na'r rhaglen flynyddol, mae hyn wedi lliniaru perfformiad y llynedd, yn ogystal ag ymrwymiad cyhoeddedig y cynllun marchnata ar gyfer gwerthu pren yn 2017-2022.

Sefydlogodd y farchnad bren ym mis Rhagfyr 2019, a hynny heb unrhyw newidiadau sylweddol ym mhrisiau cynnyrch ar gyfer masnachu yn y chwarter olaf. Er bod y

broses ddosbarthu a'r incwm dilynol o werthiannau pren wedi gwella yn y chwarter olaf, yr alldro terfynol ar gyfer y pren a ddosbarthwyd yw 656,000m$^3$. Roedd ein hincwm ar ddiwedd y flwyddyn yn £25.2 miliwn, a hynny o gyllideb ragfynegol wreiddiol o £24 miliwn.

Rydym wedi cadw achrediad Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig ar gyfer y 12 mis hyd at Hydref 2020. Cynhaliwyd yr archwiliad ardystio pum mlynedd ym mis Gorffennaf, a hynny gan y Sefydliad Pridd, sef ein harchwilwyr newydd a benodwyd eleni. Mae'r gwaith o derfynu mân Geisiadau am Gamau Unioni ac Arsylwadau 2019 yn mynd rhagddo, ynghyd â'r gwaith o baratoi ar gyfer archwiliad 2020, gyda'r prif sylw yn cael ei roi i Gynllunio Adnoddau Coedwig.

Mae pob contract a gyhoeddwyd er mis Tachwedd 2019 yn amlygu tystysgrif achredu newydd y Sefydliad Pridd ar gyfer pren cynaliadwy a werthir o Ystad Coetir Llywodraeth Cymru.

32. **Oren – Cyflenwi ein rhaglen ynni adnewyddadwy**

Mae ein Rhaglen Ynni Adnewyddadwy yn helpu Cymru i gyflawni agendâu Llywodraeth Cymru o ran datgarboneiddio a Twf Gwyrdd, ac yn cyfrannu at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.

Mae ein targed o 440 MW ar gyfer mesur gwynt ar y tir wedi cael ei fodloni, a hynny wrth i fferm wynt 96 MW Coedwig Clocaenog ddod yn weithredol yn y chwarter olaf.

Mae'r mesur hwn yn cael sgôr oren oherwydd na chyflawnwyd y targed o 1.7 MW ar gyfer rhaglen hydro raddfa fach. Roedd 1.5 MW yn weithredol erbyn diwedd Ch4: nid yw'r targed wedi'i fodloni oherwydd llithriad yn llinellau amser adeiladu y datblygwyr i mewn i Flwyddyn Ariannol 2020-21, sydd y tu hwnt i reolaeth CNC. Cyfran fach iawn o'r targed cyfan yw hyn – am fod y rhaglen hydro raddfa fach 200 MW yn brin – sef 0.05% o'r targed cyfan o 442 MW.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio'n agos gyda'n timau ar leoliad i symud ymlaen â'r cyfle marchnata nesaf ar gyfer parc ynni/gwynt ar y tir graddfa fawr (50 MW+) ar dir a reolir gan CNC.

33. **Gwyrdd – Cyflawni ein cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â throseddau gwastraff**

Mae'r gwaith hwn yn parhau i wneud cynnydd da.

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff yn cael ei roi ar waith. Ddiwedd y flwyddyn, rydym mewn sefyllfa dda i symud ymlaen â gweithgarwch yn 2020-21, yn enwedig pan fydd y cyfyngiadau gweithredol oherwydd Covid-19 yn gallu cael eu llacio.

Bellach, mae gennym ganiatâd i gynnal archwiliadau rhagweithiol ar safleoedd cyfleusterau gwastraff eithriedig sy'n prosesu llif gwastraff heriol. Mae ein Strategaeth Gyfathrebu wedi cael ei chymeradwyo, ac mae'r brand mynd i'r afael â throseddau

gwastraff wedi cael ei ddatblygu. Mae cynulleidfaoedd allweddol wedi cael eu nodi, a negeseuon wedi cael eu llunio. Mae pecyn hyfforddi drafft ar ymwybyddiaeth o wybodaeth wedi cael ei lunio: mae hwn yn cael ei drosglwyddo i Safety Media i greu cwrs ar-lein, a fydd yn cael ei gyflwyno ar system e-ddysgu CNC.

Mae Mynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff wedi sefydlu cysylltiadau newydd â'r DVSA (Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau), ac rydym wedi cynnal diwrnod gweithredu ar y cyd ym mhwynt gwirio'r DVSA yng Nghaergybi, yn targedu cludwyr gwastraff. Rydym hefyd yn parhau i drafod dulliau ag Awdurdod Cyllid Cymru a'r Cyd-uned ar gyfer Troseddau Gwastraff, ac yn disgwyl cymryd camau cydweithredol i fynd i'r afael â throseddau gwastraff yn ystod 2020-21.

Bydd y gwaith yn parhau yn 2020-21, gan gynnwys trafodaethau â manwerthwyr ar y Rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol ynghylch dileu hysbysebion a phostiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gwastraff yr amheuir eu bod yn rhai anawdurdodedig.

Bydd y dosbarth meistr ar ddatrys problemau yn seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, a gynhelir gan Goleg Prifysgol Llundain, ac yr oeddem wedi gobeithio ei gynnal eleni, yn cael ei ailamserlennu yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi egluro mai'r terfyn amser ar gyfer ein hadroddiad blynyddol yw canol mis Mai, ac nid diwedd mis Mawrth, fel y nodir yn y tabl.

**Datblygu CNC i fod yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf**

34. **Gwyrdd – Parhau i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r sefydliad**

Cafodd ein Cynllun Gweithlu cyntaf ei gymeradwyo gan ein Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth (PaRC) ym mis Mawrth 2020, yn ôl y cynllun. Rydym wedi nodi'r blaenoriaethau y mae'n ofynnol mynd i'r afael â nhw, ac, mewn cydweithrediad â'n tîm Rheoli Pobl, rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o fynd i'r afael â rhai o'r risgiau allweddol a'r blaenoriaethau byrdymor a nodwyd. Bydd ail fersiwn yn cael ei lunio ar gyfer mis Mawrth 2021.

Cafodd ein pob un o'n digwyddiadau Arweinyddiaeth ar gyfer 2019-20 eu cyflawni, fel y nodir. Cafodd digwyddiadau datblygu hefyd eu cyflawni ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Yn ein Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol ym mis Mawrth, cytunwyd hefyd ar ddull ar gyfer datblygu ein proses Rheoli Perfformiad.

Rydym yn parhau i gynnig cymorth cyfrinachol, profiadol i'r staff y mae unrhyw rhaglenni newid bach yn effeithio arnynt, neu y mae eu contractau ar fin dod i ben os ydynt ar gontractau tymor penodol. Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o barhau i gyflenwi hyfforddiant, yn ogystal â chroesawu staff newydd i CNC, a hynny heb ein digwyddiadau cynefino wyneb yn wyneb a lansiwyd yn ddiweddar.

35. **Oren – Gweithredu'r argymhellion ar gyfer llywodraethu ein gwerthiannau pren**

Nodir bod y mesur hwn yn oren am fod angen cwblhau peth hyfforddiant a sefydlu'r ffyrdd newydd o weithio yn llawn. O blith y chwe llif gwaith gwreiddiol, caewyd un, sef llif gwaith y polisïau a phrosesau, ym mis Ionawr, a throsglwyddwyd yr holl waith i fusnes arferol, gydag atebolrwydd clir am y polisïau a'r prosesau a sefydlwyd.

Yn achos y llifoedd gwaith eraill, caewyd tri ohonynt, sef Cyllid, Rheoli Perthnasoedd a Chyfathrebu, ac Ymgysylltu â'r Sefydliad Ehangach, ddiwedd mis Mawrth. Mae ein tîm Cyfathrebu wedi rhoi cynghorydd cyfathrebu dynodedig ar waith er mwyn sicrhau cyfathrebu parhaus, gwell â'r sector coedwigaeth ehangach yn ystod y 12 mis nesaf.

Mae pob contract wedi cael ei aildrafod, lle bo hynny'n briodol: caniatawyd i dri chontract sydd â rhwymedigaeth ailstocio barhau. Mae un contract, y mae'r rhwymedigaeth ailstocio wedi'i thynnu ohono, yn cael ei lunio, ac mae un contract teneuo wedi cael ei estyn hyd at ddiwedd mis Mai, gydag estyniad pellach i'r contract.

Mae hyfforddiant ar lywodraethu wedi cael ei gyflwyno i'n timau Arwain a Rheoli, ac mae peth hyfforddiant wedi cael ei gynnal ar gyfer timau cyfan. Mae ymdrechion pellach i gyflwyno hyfforddiant i'n holl staff yn parhau.

I sicrhau y gweithredir yn llawn yn unol â'r argymhellion yn adroddiad Grant Thornton, mae'r holl lifoedd gwaith yn llunio adroddiadau cau. O'r rhain, rydym yn nodi unrhyw gamau nas cyflawnwyd, ynghyd â'r meysydd hynny lle y mae angen ymgorffori llwyr o hyd. Bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yn darparu gwasanaeth craffu pellach trwy lunio adroddiadau rheolaidd, a fydd yn cael eu hadolygu ymhen chwe mis er mwyn ystyried fformat a chysondeb.

36. **Oren – Boddhad Cwsmeriaid (o ran eu rhyngweithiadau ag CNC)**

Y rheswm dros y sgôr oren ar gyfer y chwarter hwn yw salwch hirdymor staff allweddol yn y rhaglen, yn ogystal â phroblemau cyffredinol yn ymwneud â galluedd ac argaeledd staff a thimau ledled y busnes. Mae hyn wedi arwain at oedi'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer datblygu a chyflwyno nifer o feysydd. Dau faes allweddol oedd sefydlu fframwaith gwerthuso, a chynnal yr Arolwg Cwsmeriaid Allanol ar y cyd â'r Sefydliad Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Mae'r rhain yn allweddol i'n galluogi i gipio a dadansoddi lefelau ymgysylltu a bodlonrwydd cwsmeriaid o'r holl bwyntiau cyswllt ledled y busnes; bydd hyn, yn ei dro, yn darparu gwell dirnadaeth o'r cwsmeriaid i lywio gwaith cynllunio busnes yn y dyfodol a'r defnydd o adnoddau.

Er gwaethaf yr heriau, cafodd gwelliannau a chynnydd eu gwneud o ran y chwe phrosiect i wella rhaglenni cwsmeriaid y cytunwyd eu bod yn feysydd gwaith â blaenoriaeth y llynedd (allan o gyfanswm o 13 o brosiectau yn y rhaglen). Roedd y rhain yn canolbwyntio ar 'sicrhau bod y pethau sylfaenol yn gywir', gweithredu systemau newydd a gwell systemau, cynyddu'r hyfforddiant ar gŵynion, a gwella rhyngweithiadau ar-lein ac mewn hybiau i gwsmeriaid. Mae gwelliannau i safonau ansawdd a dulliau mewnol wedi cael eu rhoi ar waith, a hynny'n dilyn cyhoeddi'r 'Canllaw ysgrifennu' ar gyfer staff CNC, a chynnal y sesiynau hyfforddiant ar ymgysylltu, Tôn y Llais.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad y cwsmeriaid yn allanol (ar gyfer y cyhoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid) gan y bydd hyn yn arwain at lefelau uwch o foddhad cwsmeriaid, yn ogystal ag amlygu ein hegwyddorion ar waith o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n hamcanion llesiant. Bydd sefydlu'r Fforwm Cynnwys Cwsmeriaid yn rhoi cyfle i'r cwsmeriaid weithio gyda ni mewn nifer o ffyrdd sy'n gweddu i'w hanghenion, ac yn cyflawni ymrwymiadau ein cynllun corfforaethol. Byddwn yn parhau i roi ffocws cryf ar gwsmeriaid mewnol (staff CNC) gan ddysgu oddi wrth dri chynllun peilot cydgynhyrchu; bydd Trwyddedu, Canolfannau Ymwelwyr a Datganiadau Ardal yn llywio'r ddarpariaeth ledled CNC yn y dyfodol. Bydd sefydlu Grŵp yr Ymarferwyr Ymgysylltu, mynediad at raglenni hyfforddiant pwrpasol, a chyflwyno'r pecyn cymorth newydd ar gyfer ymgysylltu a chynhwysiant, hefyd yn cefnogi'r staff. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys yr offer ymgysylltu ar-lein, Citizen Space a Dialogue, yn ogystal â dulliau cydgynhyrchu.

37. Bydd y Prif Weithredwr yn darparu crynodeb llafar o’r cyflawniadau yng nghyfarfod y Bwrdd, a bydd aelodau o’r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau.

## Argymhelliad

38. Gofynnir i’r Bwrdd graffu ar yr adroddiad ar berfformiad ar gyfer Ch4 a chytuno arno, a hynny cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Risgiau Allweddol

39. Os nad yw’r wybodaeth am berfformiad a ddarperir yn adlewyrchu’r cynnydd tuag at Amcanion Corfforaethol/y Cynllun Busnes yn fanwl gywir, yna ni fydd y Bwrdd yn gallu cyflawni ei rôl o graffu ar gyflawniad CNC.

## Y Camau Nesaf

40. Bydd yr adroddiad ar berfformiad yn cael ei gyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a’i gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Goblygiadau Ariannol

41. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol o ran darparu’r adroddiad ar berfformiad ei hun; fodd bynnag, mae rhan o’n hadolygiad chwarterol yn amlwg yn ystyried dyraniad ein hadnoddau, ac felly mae yna gyswllt agos rhwng y papurau cyllid a’r papurau perfformiad.

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

42. Mae’r asesiad perthnasol o’r effaith ar gydraddoldeb yn cwmpasu ein Datganiad Llesiant, ein Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20 a’n Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, a chafodd ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2019.

## Mynegai o Atodiadau

43. Atodiad A – Dangosfwrdd Chwarter 4